Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Welcome to
# University of Wales Trinity Saint David

Main Reception
01792 481000

SWANSEA

# Croeso gan yr Is-Ganghellor
## Welcome from the Vice-Chancellor

*Rwyf wrth fy modd eich bod wedi dewis dod yn un o fyfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch croesawu i deulu'r Brifysgol.*

*Rydych bellach yn aelodau o'r Brifysgol Siartredig Frenhinol hynaf yng Nghymru ynghyd â rhwydwaith rhyngwladol a fydd, gobeithio, yn eich gwasanaethu'n dda drwy gydol eich bywyd personol a phroffesiynol.*

*Ymfalchïwn yn fawr yn ein hanes gan ei fod wedi cynnig sylfeini cadarn er mwyn i ni dyfu a pharhau ar hyd ein taith drawsnewidiol. Mae'r Brifysgol yn gonffederasiwn o nifer o sefydliadau sydd wedi ymrwymo i roi anghenion ei myfyrwyr wrth ei chalon.*

*Ceisia'r Brifysgol gynnig y cyfle i chi brofi ystod eang o gyfleoedd academaidd, cymdeithasol a diwylliannol er mwyn cefnogi'ch datblygiad personol a phroffesiynol. Mae'r Brifysgol yn enwog am yr ystod o wasanaethau a ddarparwn i'ch cefnogi yn ystod eich astudiaethau. Mae'r fath wasanaethau yn cynnwys darparu cwricwlwm perthnasol ac ysbrydoledig, amgylchedd dysgu cefnogol, buddsoddi yn ein campysau a datblygu rhwydweithiau proffesiynol a phartneriaethau i gyfoethogi profiad y myfyriwr.*

*Wedi'r cyfan, mae bywyd Prifysgol ym ymwneud â myfyrwyr; eich profiadau, y cyfleoedd a ddarparwn i chi herio cysyniadau, i ddarganfod pwy ydych a'r hyn rydych yn sefyll drosto. Mae timau academaidd a phroffesiynol y Brifysgol yma i sicrhau eich bod yn cyflawni'ch potensial ac rwyf yn eich annog i wneud y gorau o bob cyfle a mwynhau'r amser arbennig iawn yn eich bywyd.*

*Gyda phob dymuniad da ac edrychwn ymlaen at eich croesawu ym mis Medi.*

**Yr Athro Medwin Hughes, DL**
**Is-Ganghellor**

*I am delighted that you have chosen to become a student of the University of Wales Trinity Saint David (UWTSD) and I would like to take this opportunity to welcome you to the UWTSD family.*

*You are now members of the oldest Royal Chartered University in Wales and an international network that I hope will serve you well throughout your personal and professional life.*

*We take great pride in our history as it has provided us with solid foundations from which to grow and continue our transformational journey. The University is a confederation of several institutions committed to placing the needs of our students at its core.*

*The University seeks to provide you with the opportunity to experience a wide range of academic, social and cultural opportunities to support your personal and professional development. UWTSD is renowned for the range of services that we provide to support you during your studies. Such services include the provision of a relevant and inspiring curriculum, a supportive learning environment, investing in our campuses and developing professional networks and partnerships to enhance the student experience.*

*University life is, after all, about students; your experiences, the opportunities that we provide you to challenge concepts, to find out who you are and what you stand for. The University's academic and professional teams are here to ensure that you achieve your potential and I encourage you to make the most of every opportunity and enjoy this very special time in your life.*

*With very best wishes and we look forward to welcoming you in September.*

**Professor Medwin Hughes, DL**
**Vice-Chancellor**



Download the **UWTSD Student Guide** in your app store for all your first day info

# Your first day

23

We're asking all new students to join us on **Saturday 23rd September** at our **Townhill campus** (see map enclosed) to welcome you to UWTSD and ensure you have everything in place to start your journey with us.

On your first day you'll have the opportunity to meet your lecturers, pick up your timetable and learn about all of the opportunities available to you at UWTSD. You can find your welcome day checklist in this booklet.

**To find out more information about what to expect and what you need to prepare, go to: www.uwtsd.ac.uk/welcome and download the UWTSD App - just search UWTSD Student Guide in your app store.**

# How do I get here?

Our Welcome event is at the Townhill campus (SA2 0UT).

The enclosed campus map will show you how to get to Townhill and where it is in relation to the other campuses. You can also find links to public transport information on the welcome website and the UWTSD app.

We'll be running a regular shuttle bus service from the Swansea train station from 10am - 4pm which will stop at the Mount Pleasant and Townhill campuses. Your Students' Union Fresh Reps will be there to help so keep an eye out for them.

If you're staying at St David's Halls you'll be able to catch a shuttle bus between 2 - 4pm to join us in Townhill.

If you are coming from elsewhere to ensure you can park we're asking you to join us in Townhill campus between 2pm - 4pm.

## Grab a bite

Our food venues will be open from 9am-5pm so whether you would prefer to pick up a snack at the Starbucks, or a hot meal at the Metro 2 canteen there is something for everyone.

We've also got free tea hot drinks in the Townhill theatre.

# Staying with us?

If you are moving into University accommodation, our Accommodation office will have sent you details of where to go when you arrive, and how to pick up your keys.

If you're staying in:

**Mount Pleasant**
Please arrive between 11.00am and 2.00pm. Please note that there is no lift access to these buildings and items will have to be carried from the car park.

**Townhill**
To ensure there's no congestion we're asking you to stagger arrivals

- Surnames A-L please arrive between 10am and 1pm
- Surnames M-Z please arrive between 1:30pm and 3:30pm

When you arrive you'll be directed to the theatre where you can pick up your keys.

*Please ensure the accommodation office has received your full deposit and that you have been notified of your room number or you won't be able to collect your key.*

You will also need to attend an accommodation induction that evening at 6pm in the Main Lecture Theatre, Townhill (see map).

*If you arrive late*
If you are unable to arrive until after 4pm, please go to reception in Townhill or Mount Pleasant where you'll be able to pick up your accommodation keys.

If you're unable to arrive on Saturday 23rd, please let us know by contacting us on **01792 482086** or **accommodation@uwtsd.ac.uk**

Follow us for updates @UWTSDStudents

# YOUR FIRST STEP: ENROL BEFORE YOU ARRIVE

**Enrol online** from 5th September at www.uwtsd.ac.uk/registry/enrolment

Before enrolling make sure you read the enrolment declaration and plagiarism detection documents

Enrolling means you're officially a **UWTSD Student**!

**Upload your photo** for your student card

Which means your **student finance** will be ready for the start of term

## AFTER YOU'VE ENROLLED JUST USE YOUR IT ACCOUNT TO...

Access all the latest specialist software for your course, including Adobe CC and Autodesk

**FREE or DISCOUNTED**

### Need a computer or tablet?

Use our Tech Over Time deal to purchase what you want and pay over time with

**0% INTEREST**

Download

**FREE Office 365**

including Microsoft Word

Check **www.uwtsd.ac.uk/it-exclusives** for more

Trouble enrolling?

Contact Registry: admissions@uwtsd.ac.uk 01792 481097



or

**Check your email** for
confirmation of enrolment

You will receive details of your
**Uni IT account**

All your essential info will be
sent to your uni email
Make sure to register for the
password reset portal to keep
your info secure

Your **student card** will be
ready for you when you arrive

This gives you full campus access plus
use of the library facilities and printers
as soon as you get here

UR UNI



and don't forget to
**FOLLOW US!**

**@UWTSDStudents**
**for student info & opportunities**

## Make sure you're online

Download the CAT tool to auto
connect your devices to the wi-fi as
soon as you arrive
www.uwtsd.ac.uk/wireless

24hr IT Support: 0300 500 5055
You can also email: ITServiceDesk@uwtsd.ac.uk
Or visit: webhelp.uwtsd.ac.uk



# Getting to know UWTSD

## Meet your course team

You'll be able to meet your lecturers, pick up your programme for induction week and your timetable at the welcome day. There'll also be events as part of your course to help you to get to know your fellow students.

## Find out about what we offer

Whether you're grabbing a bite in one of our onsite Starbucks cafes, downloading free software we've secured for students or accessing our highly rated student support services there are loads of additional benefits to being a UWTSD student which you find out about at www.uwtsd.ac.uk/welcome

## Get to know Swansea

Your Students' Union will be running events over the first two weeks of term to help you get to know the campus and your classmates. Get involved and if there's something you think is missing set up your own SU society.

## Get connected and win

Don't miss out on news and opportunities by following @UWTSDStudents on Twitter and Facebook. We'll be entering all of our new followers into a draw to win an iPad Mini at the end of Freshers. So follow us and let us know how you're enjoying UWTSD.

## Don't forget to download the app

To get all the info you need to start your journey with us and plan your first week schedule with Guidebook. Just head to the App or Google Play store > search UWTSD Student Guide and download the app.

# Your Students' Union

Your SU is here to amplify your voice, help you create change, and create activities and opportunities to enhance your student life.

You'll get a chance to meet your elected student reps on the day, pick up an NUS extra card and learn about the different societies you can join. The SU will be on campus with teams of friendly students to help you move and settle in, to meet new people, and find your way around.

What's going on?
For full details of their exciting events and clubs & societies
Check out their website at www.tsdsu.co.uk



EICH UNDEB MYFYRWYR
Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant
YOUR STUDENTS' UNION
Trinity Saint David Students' Union

@TSDSU

# Key Contacts

## Accommodation

If you are living in University accommodation please find contact details below;

During normal office hours (9-5pm Mon-Thurs, 9-4:30pm Fri)
**accommodation@uwtsd.ac.uk**
**01792 482086**

Outside of normal office hours
Porters in Townhill halls
**07850 321704 / 01792 482001**

Porters in Mount Pleasant halls
**07850 321705 / 01792 481200**

***If you have accommodation in St David's***
**stdavids@freshstudentliving.co.uk**

**01792 341643**

## IT support

At UWTSD we have 24 hour IT Support available, 365 days a year.

You can;
•Call anytime: **0300 500 5055**
•Visit your local IT Service Desk
•Email: **ITServiceDesk@uwtsd.ac.uk**
•Or raise a ticket via webhelp: **www.webhelp.uwtsd.ac.uk**

## Student services

Please see Student Services for help with; student finance, disability support, learning support, counselling, mental health support and careers.
student.services@uwtsd.ac.uk
01792 481206

## Application and enrolment support

If you need help with your application or have any problems enrolling please contact Registry:
**admissions@uwtsd.ac.uk**
**01792 481097**




# Meet your Student Reps

### Charlie (Swansea President)



*"Hi! I'm Charlie and I'm your Swansea Campus President this year. I'm here to support, represent and inspire students. My aim is to make sure that you get the best possible student experience during your time at UWTSD, and my objective is to give students a greater say in what happens around the student experience, and to become more engaged with the Students' Union.*

*Let me know if you need anything or if you just want a chat. I have an open door policy and I'm looking forward to meeting you all soon!"*

---------------------

Email: charlie.jones@uwtsd.ac.uk
Facebook: Charlie Jones Pres
Twitter: @TSDSUSwansea

### Rob (Group President)



*"Hey! I'm Rob and I'm your Group President for TSDSU this year!*

*The campus Presidents and I are here to make YOUR time in Uni as amazing as possible, through whatever shape you want it to take. I'm looking forward to meeting as many of you as possible - so if you see me out and about please feel free to stop me and say hi!*

*Let's make this year a good one, see you all around!"*

---------------------

Email: robert.simkins@uwtsd.ac.uk
Facebook: Rob Simkins Pres
Twitter: @RobSimkinsPres

Find out your rights and responsibilities as a student by reading the Student Charter which you can access by searching Student Charter at www.tsdsu.co.uk

# Your Welcome Day CHECKLIST

- ☐ Pick up your ID card
- ☐ Meet your course team and the school stand to get your first week programme
- ☐ If you have additional forms like DBS checks, head to the Registry stand

## Staying with us?

- ☐ Collect your keys and find out where you're staying in halls
- ☐ Get insurance with Endsleigh (to protect your belongings)
- ☐ Register with your local GP
- ☐ Move your stuff into halls - our SU volunteers are here to help

## Head to the IT desk;

- ☐ To check out all the IT Exclusives available to UWTSD students
- ☐ If you need help to get online

## Support at UWTSD

- ☐ Discover what support we offer for your studies and beyond with our Student Services team
- ☐ Find out about the financial support and bursaries we offer

## Meet Your Students' Union

- ☐ Visit the SU stand to discover what they offer
- ☐ Get yourself an NUS card giving you over 200 UK discounts
- ☐ Find out about events happening in your first week
- ☐ Discover the societies and sports teams you can join

# Eich RHESTR WIRIO Croeso

- ☐ Casglu eich cerdyn adnabod
- ☐ Mynd i gwrdd â'ch tîm cwrs a stondin yr ysgol i gael eich rhaglen am yr wythnos gyntaf
- ☐ Os oes gennych ffurflenni ychwanegol, fel archwiliadau DBS, ewch i stondin y Gofrestrfa

## Os ydych chi'n aros gyda ni:

- ☐ Casglu eich allweddi a gweld ble rydych chi'n aros yn y neuaddau
- ☐ Trefnu yswiriant gydag Endsleigh (i ddiogelu eich eiddo)
- ☐ Cofrestru gyda meddyg lleol
- ☐ Symud eich stwff i mewn i'r neuaddau – mae ein gwirfoddolwyr o'r UM yma i helpu

## Mynd i'r ddesg TG:

- ☐ I weld yr holl fargeinion TG sydd ar gael i fyfyrwyr PCYDDS
- ☐ I gael help, os oes angen, i fynd ar-lein

## Cymorth yn PCYDDS

- ☐ Gweld pa gymorth rydym yn ei gynnig ar gyfer eich astudiaethau a thu hwnt gan ein tîm Gwasanaethau Myfyrwyr
- ☐ Cael gwybod am y cymorth ariannol a'r bwrsarïau rydym yn eu cynnig

## Cwrdd â'ch Undeb Myfyrwyr

- ☐ Ymweld â stondin Undeb y Myfyrwyr i ddarganfod beth maen nhw'n ei gynnig
- ☐ Cael cerdyn NUS sy'n cynnig dros 200 o ostyngiadau yn y DU
- ☐ Cael gwybod am y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn ystod eich wythnos gyntaf
- ☐ Darganfod y cymdeithasau a'r timau chwaraeon y gallwch ymuno â nhw

# Prif Gysylltiadau

## Llety
Os ydych chi'n byw yn llety'r Brifysgol, mae'r manylion cyswllt i'w gweld isod;

Yn ystod oriau gwaith arferol (9-5pm Llun-Iau, 9-4:30pm Gwe)
**accommodation@uwtsd.ac.uk**
**01792 482086**

Y tu allan i oriau gwaith
Porthorion yn neuaddau Townhill
**07850 321704 / 01792 482001**

Porthorion yn neuaddau Mount Pleasant
**07850 321705 / 01792 481200**

***Os oes gennych lety yn neuaddau Dewi Sant***
**stdavids@freshstudentliving.co.uk**

**01792 341643**

## Cymorth TG
Yn PCYDDS mae gennym Gymorth TG ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

Gallwch;
- Ffonio **0300 500 5055** ar unrhyw adeg
- Ymweld â'r Ddesg Gwasanaeth TG leol
- Anfon e-bost i: **ITServiceDesk@uwtsd.ac.uk**
- Neu wneud cais trwy webhelp: **www.webhelp.uwtsd.ac.uk**

## Gwasanaethau myfyrwyr
Ewch at y Gwasanaethau Myfyrwyr am gymorth gyda: chyllid myfyrwyr, cymorth anabledd, cymorth dysgu, cwnsela, cymorth Iechyd meddwl a gyrfaoedd.
**student.services@uwtsd.ac.uk**
**01792 481206**

## Cymorth wrth ymgeisio a chofrestru
Os oes angen cymorth arnoch gyda'ch cais neu os oes gennych broblemau wrth gofrestru, cysylltwch â'r Gofrestrfa:
**admissions@uwtsd.ac.uk**
**01792 481097**




# Cwrdd â'ch Cynrychiolwyr Myfyrwyr

## Charlie (Llywydd Abertawe)



*"Helo! Charlie ydw i, Llywydd Undeb y Myfyrwyr ar Gampws Abertawe PCYDDS eleni. Rydw i yma i gefnogi, i gynrychioli ac i ysbrydoli myfyrwyr. Dwi am sicrhau y byddwch chi'n cael y profiad myfyrwyr gorau posib yn ystod eich amser yn PCYDDS, a fy amcan yw rhoi mwy o lais i fyfyrwyr yn yr hyn sy'n digwydd o ran profiad myfyrwyr, a rhoi cyfle iddynt ymgysylltu'n well ag undeb y myfyrwyr.*

*Rhowch wybod i mi os ydych chi angen unrhyw beth neu os ydych chi am ddod draw am sgwrs. Mae gen i bolisi drws agored ac rydw i'n edrych ymlaen at gwrdd â chi gyd!"*

---------------------

E-bost: charlie.jones@uwtsd.ac.uk
Facebook: Charlie Jones Pres
Twitter: @TSDSUSwansea

## Rob (Llywydd Grŵp)



*"Helo! Rob ydw i a fi yw Llywydd Grŵp UMyDDS eleni!*
*Mae Llywydd y Campws a finnau yma i wneud eich amser CHI yn y Brifysgol mor wych â phosib, pa bynnag ffurf fydd i hynny. Dwi'n edrych ymlaen at gwrdd â chymaint ohonoch â phosib - felly os ydych chi'n fy ngweld i o amgylch y lle, mae croeso i chi ddod draw i ddweud helo!*

*Beth am wneud hon yn flwyddyn arbennig; hwyl am y tro! "*

---------------------

E-bost: robert.simkins@uwtsd.ac.uk
Facebook: Rob Simkins Pres
Twitter: @RobSimkinsPres

Gallwch gael gwybod am eich hawliau a'ch cyfrifoldebau fel myfyriwr trwy ddarllen y Siarter Myfyrwyr a chewch hyd iddo trwy chwilio am Siarter Myfyrwyr ar www.tsdsu.co.uk



# Dod i adnabod PCYDDS

## Cwrdd â'ch tîm cwrs
Byddwch yn gallu cwrdd â'ch darlithwyr, casglu eich rhaglen ar gyfer yr wythnos gynefino a'ch amserlen yn ystod y diwrnod croesawu.  Yn ogystal bydd digwyddiadau fel rhan o'ch cwrs i'ch helpu i ddod i adnabod eich cyd-fyfyrwyr.

## Cael gwybod am yr hyn sydd gennym i'w gynnig
P'un a ydych chi'n mwynhau tamaid i'w fwyta yn un o'n caffis Starbucks ar y safle, yn lawrlwytho meddalwedd am ddim rydym wedi'i sicrhau ar gyfer ein myfyrwyr, neu'n defnyddio ein gwasanaethau cymorth myfyrwyr gwerthfawr iawn, mae digonedd o fanteision ychwanegol i fod yn fyfyriwr yn PCYDDS. Gallwch gael gwybod mwy am hyn ar www.uwtsd.ac.uk/cy/croeso

## Dod i adnabod Abertawe
Bydd eich Undeb Myfyrwyr yn cynnal digwyddiadau yn ystod pythefnos cyntaf y tymor i'ch helpu i ddod i adnabod y campws a'ch cyd-fyfyrwyr. Ewch ati i gymryd rhan ac os oes rhywbeth ar goll yn eich barn chi, yna gallwch sefydlu eich cymdeithas UM eich hun.

## Cysylltu ac ennill
Peidiwch â cholli'r newyddion diweddaraf a methu cyfleoedd trwy ddilyn @UWTSDStudents ar Twitter a Facebook. Bydd ein holl ddilynwyr newydd yn cael cyfle i ennill iPad Mini ar ddiwedd Wythnos y Glas felly dilynwch ni a rhoi gwybod i ni sut rydych chi'n mwynhau PCYDDS.

## Peidiwch ag anghofio lawrlwytho'r ap
Trwy'r ap gallwch gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddechrau eich taith gyda ni a chynllunio amserlen eich wythnos gyntaf gyda Guidebook. Ewch i'r App Store neu'r Google Play store >
Chwilio am UWTSD Student Guide a lawrlwythwch yr ap

## Eich Undeb Myfyrwyr

Mae eich Undeb Myfyrwyr yma i gynyddu eich llais, eich helpu i greu newid, a chreu gweithgareddau a chyfleoedd i wella eich bywyd fel myfyriwr.

Cewch gyfle i gwrdd â'ch cynrychiolwyr myfyrwyr etholedig ar y dydd, casglu cerdyn NUS Extra a dysgu am y gwahanol gymdeithasau y gallwch ymuno â nhw. Bydd Undeb y Myfyrwyr ar y campws gyda thimau o fyfyrwyr cyfeillgar i'ch helpu i symud i mewn a setlo, cwrdd â phobl newydd, a chanfod eich ffordd o gwmpas.

### Beth sydd ymlaen?
Am ragor o fanylion am eu digwyddiadau, clybiau a chymdeithasau cyffrous, cymerwch gip ar eu gwefan www.tsdsu.co.uk






@TSDSU



**Gwiriwch eich e-bost** i gael cadarnhad eich bod wedi cofrestru

**Bydd eich cerdyn myfyriwr** yn barod ar eich cyfer pan fyddwch yn cyrraedd

Bydd y cerdyn hwn yn rhoi mynediad llawn i'r campws i chi ynghyd â defnydd o gyfleusterau'r llyfrgell a'r argraffyddion yn syth wedi i chi gyrraedd

Byddwch yn derbyn manylion eich **cyfrif TG Prifysgol**

Anfonir pob gwybodaeth hanfodol atoch i'ch cyfrif e-bost prifysgol Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofrestru ar gyfer y porth ailosod cyfrinair i gadw eich gwybodaeth yn ddiogel



**a pheidiwch ag anghofio ein DILYN NI!**

**@UWTSDStudents**
**am wybodaeth a chyfleoedd i fyfyrwyr**

## Gwnewch yn siŵr eich bod chi ar-lein

Lawrlwythwch yr offeryn CAT i gysylltu eich dyfeisiau'n awtomatig â'r wi-fi yn syth ar ôl cyrraedd
www.uwtsd.ac.uk/wireless

Cymorth TG 24 awr: 0300 500 5055
Gallwch hefyd anfon e-bost i: ITServiceDesk@uwtsd.ac.uk
Neu ewch i: webhelp.uwtsd.ac.uk

# EICH CAM CYNTAF: COFRESTRU CYN CYRRAEDD

**Cofrestrwch ar-lein** o 5 Medi ar www.uwtsd.ac.uk/registry/enrolment

Cyn cofrestru gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y ddogfen datganiad cofrestru a'r ddogfen canfod llên-ladrad

Mae cofrestru'n golygu eich bod yn swyddogol yn **Fyfyriwr yn PCYDDS**!

Sy'n golygu y bydd eich **cyllid myfyrwyr** yn barod ar gyfer dechrau'r tymor

**Lanlwythwch eich llun** ar gyfer eich cerdyn myfyriwr

## AR ÔL I CHI GOFRESTRU DEFNYDDIWCH EICH CYFRIF TG I...

**Gael mynediad i'r holl feddalwedd arbenigol ddiweddaraf ar gyfer eich cwrs, yn cynnwys Adobe CC ac Autodesk**

**AM DDIM neu AM BRIS GOSTYNGOL**

**Angen cyfrifiadur neu ddyfais llechen arnoch?**

**Defnyddiwch ein bargen Talu dros gyfnod am Dechnoleg i brynu beth sydd ei hangen arnoch a thalu dros gyfnod â**

**LLOG O 0%**

**Lawrlwythwch**

**Office 365 AM DDIM**

**yn cynnwys Microsoft Word**

Ewch i **www.uwtsd.ac.uk/it-exclusives** i weld rhagor o gynigion arbennig

Ydych chi'n cael trafferth cofrestru?

Cysylltwch â'r Gofrestrfa: admissions@uwtsd.ac.uk 01792 481097

**Llawrlwythwch yr 'UWTSD Student Guide'**
yn eich app store am yr holl wybodaeth ar gyfer eich diwrnod cyntaf

# Eich diwrnod cyntaf

Rydym yn gofyn i'r holl fyfyrwyr newydd ymuno â ni **ddydd Sadwrn 23 Medi** ar **gampws Townhill** (gweler y map amgaeedig) i'ch croesawu i PCYDDS a sicrhau bod gennych bopeth yn ei le i ddechrau ar eich taith gyda ni.

Ar eich diwrnod cyntaf fe gewch gyfle i gwrdd â'ch darlithwyr, casglu eich amserlen a dysgu am yr holl gyfleoedd sydd ar gael i chi yn PCYDDS. Mae eich rhestr wirio ar gyfer eich diwrnod croesawu ar gael y tu mewn i'r llyfryn hwn.

**I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y gallwch ei ddisgwyl a'r hyn sydd angen i chi ei baratoi, ewch i: www.uwtsd.ac.uk/cy/croeso a lawrlwytho'r Ap PCYDDS gan chwilio am UWTSD Student Guide yn eich app store.**

# Sut mae cyrraedd yno?

Cynhelir ein digwyddiad Croesawu ar gampws Townhill (SA2 0UT).

Bydd y map amgaeedig o'r campws yn dangos sut i gyrraedd Townhill a ble mae e mewn perthynas â'r campysau eraill.

Hefyd fe welwch ddolenni i wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus ar y wefan croeso ac ar yr ap PCYDDS.

Byddwn yn rhedeg gwasanaeth bws gwennol rheolaidd o'r orsaf drenau rhwng 10am a 4pm a fydd yn stopio ar gampysau Mount Pleasant a Townhill. Bydd Cynrychiolwyr y Glas o'ch Undeb Myfyrwyr yno i'ch helpu felly cadwch lygad amdanynt.

Os ydych chi'n aros yn Neuaddau Dewi Sant byddwch chi'n gallu dal bws gwennol rhwng 2pm a 4pm i ymuno â ni yn Townhill.

Os ydych chi'n dod o rywle arall, er mwyn sicrhau eich bod yn cael lle i barcio rydyn ni'n gofyn i chi ymuno â ni ar gampws Townhill rhwng 2pm a 4pm.

## Tamaid i'w fwyta

Bydd ein lleoliadau bwyd ar agor rhwng 9am-5pm felly os hoffech gael byrbryd yn y Starbucks, neu bryd twym ym Ffreutur Metro 2, mae gennym rywbeth at ddant pawb.
Gallwch hefyd gael te/goffi am ddim yn y Theatr Townhill.

# Ydych chi'n aros gyda ni?

Os ydych chi'n symud i lety'r Brifysgol, bydd ein Swyddfa Llety wedi anfon manylion atoch ynglŷn â ble i fynd ar ôl cyrraedd, a sut i gasglu eich allweddi.

Os ydych chi'n aros yn:

**Mount Pleasant**
Gofynnir i chi gyrraedd rhwng 11.00am a 2.00pm. Sylwch nad oes mynediad drwy lifft i'r adeiladau hyn a bydd rhaid cario eitemau o'r maes parcio.

**Townhill**
Er mwyn sicrhau nad oes tagfeydd gofynnwn i chi gyrraedd yn ôl y drefn ganlynol

- Cyfenwau A-L, a wnewch chi gyrraedd rhwng 10am ac 1pm
- Cyfenwau M-Z, a wnewch chi gyrraedd rhwng 1:30pm a 3:30pm

Ar ôl cyrraedd cewch eich cyfeirio i'r theatr lle gallwch chi gasglu eich allweddi.

*Gwnewch yn siŵr fod y Swyddfa Llety wedi derbyn eich blaendal llawn a'ch bod wedi cael gwybod rhif eich ystafell neu ni fyddwch chi'n gallu casglu'ch allwedd.*

Hefyd, y noson honno, bydd angen i chi fynd i sesiwn gynefino yn ymwneud â llety am 6pm yn y Prif Ddarlithfa (gweler y map).

*Os byddwch yn cyrraedd yn hwyr*
Os nad oes modd i chi gyrraedd tan ar ôl 4pm, ewch i'r dderbynfa yn Townhill neu Mount Pleasant lle gallwch gasglu allweddi'ch llety.

Os na allwch chi gyrraedd ddydd Sadwrn 23 Medi, rhowch wybod i ni drwy gysylltu â ni ar **01792 482086** neu **accommodation@uwtsd.ac.uk**

**Dilynwch ni am ddiweddariadau @UWTSDStudents**

# Croeso gan yr Is-Ganghellor
## Welcome from the Vice-Chancellor

*Rwyf wrth fy modd eich bod wedi dewis dod yn un o fyfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch croesawu i deulu'r Brifysgol.*

*Rydych bellach yn aelodau o'r Brifysgol Siartredig Frenhinol hynaf yng Nghymru ynghyd â rhwydwaith rhyngwladol a fydd, gobeithio, yn eich gwasanaethu'n dda drwy gydol eich bywyd personol a phroffesiynol.*

*Ymfalchïwn yn fawr yn ein hanes gan ei fod wedi cynnig sylfeini cadarn er mwyn i ni dyfu a pharhau ar hyd ein taith drawsnewidiol. Mae'r Brifysgol yn gonffederasiwn o nifer o sefydliadau sydd wedi ymrwymo i roi anghenion ei myfyrwyr wrth ei chalon.*

*Ceisia'r Brifysgol gynnig y cyfle i chi brofi ystod eang o gyfleoedd academaidd, cymdeithasol a diwylliannol er mwyn cefnogi'ch datblygiad personol a phroffesiynol. Mae'r Brifysgol yn enwog am yr ystod o wasanaethau a ddarparwn i'ch cefnogi yn ystod eich astudiaethau. Mae'r fath wasanaethau yn cynnwys darparu cwricwlwm perthnasol ac ysbrydoledig, amgylchedd dysgu cefnogol, buddsoddi yn ein campysau a datblygu rhwydweithiau proffesiynol a phartneriaethau i gyfoethogi profiad y myfyriwr.*

*Wedi'r cyfan, mae bywyd Prifysgol ym ymwneud â myfyrwyr; eich profiadau, y cyfleoedd a ddarparwn i chi herio cysyniadau, i ddarganfod pwy ydych a'r hyn rydych yn sefyll drosto. Mae timau academaidd a phroffesiynol y Brifysgol yma i sicrhau eich bod yn cyflawni'ch potensial ac rwyf yn eich annog i wneud y gorau o bob cyfle a mwynhau'r amser arbennig iawn yn eich bywyd.*

*Gyda phob dymuniad da ac edrychwn ymlaen at eich croesawu ym mis Medi.*

**Yr Athro Medwin Hughes, DL**
**Is-Ganghellor**

*I am delighted that you have chosen to become a student of the University of Wales Trinity Saint David (UWTSD) and I would like to take this opportunity to welcome you to the UWTSD family.*

*You are now members of the oldest Royal Chartered University in Wales and an international network that I hope will serve you well throughout your personal and professional life.*

*We take great pride in our history as it has provided us with solid foundations from which to grow and continue our transformational journey. The University is a confederation of several institutions committed to placing the needs of our students at its core.*

*The University seeks to provide you with the opportunity to experience a wide range of academic, social and cultural opportunities to support your personal and professional development. UWTSD is renowned for the range of services that we provide to support you during your studies. Such services include the provision of a relevant and inspiring curriculum, a supportive learning environment, investing in our campuses and developing professional networks and partnerships to enhance the student experience.*

*University life is, after all, about students; your experiences, the opportunities that we provide you to challenge concepts, to find out who you are and what you stand for. The University's academic and professional teams are here to ensure that you achieve your potential and I encourage you to make the most of every opportunity and enjoy this very special time in your life.*

*With very best wishes and we look forward to welcoming you in September.*

**Professor Medwin Hughes, DL**
**Vice-Chancellor**



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

## Croeso

Y Brif Dderbynfa
01792 481000

ABERTAWE